NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon
The Teachers' Union

# BWLETIN

## i Athrawon Cyflenwi

### Newidiadau allweddol i'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws sydd wedi'i ymestyn

Mae'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws wedi'i ymestyn hyd at 31 Hydref i'r cyflogwyr hynny sydd â chyfrif banc yn y DU ac a oedd yn gweithredu'r cynllun Talu Wrth Ennill (TWE) ar 19 Mawrth 2020.

Mae'r Cynllun yn galluogi i gyflogwyr barhau i roi eu cyflogeion ar seibiant (a elwir erbyn hyn yn 'ffyrlo'), ac mae hyn hefyd yn berthnasol i athrawon cyflenwi sy'n gweithio i fusnesau cyflogaeth neu gwmnïau ymbarél. Mae'r cyflogwr yn derbyn grant i dalu 80% o gyflog arferol y cyflogeion, neu £2,500, pa un bynnag yw'r isaf, ar yr amod bod y cyflogeion yn gyflogedig ar 19 Mawrth ac ar y gyflogres TWE ar neu cyn 19 Mawrth 2020.

Tra bo'r trefniant hwn yn parhau, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno nifer o newidiadau allweddol i'r ffordd y mae'r Cynllun yn gweithredu wrth symud ymlaen, fel a ganlyn:

- O 10 Mehefin ymlaen, caeodd y Cynllun i ymgeiswyr newydd oedd heb fod ar ffyrlo am o leiaf tair wythnos, heblaw bod cyflogeion cymwys ar gyfnod o absenoldeb statudol (e.e. absenoldeb mamolaeth) oedd heb gychwyn cyn 10 Mehefin.
- O 1 Gorffennaf ymlaen, bydd gan gyflogwyr yr hyblygrwydd i ddod â chyflogeion sydd ar ffyrlo ar hyn o bryd yn ôl i weithio'n rhan amser (ffyrlo hyblyg):
  - o bydd cyflogeion, gan gynnwys y rheiny sydd ar gontractau 'oriau newidiol' (e.e. athrawon cyflenwi), yn gallu gweithio am ran o'r wythnos a bod ar ffyrlo am weddill yr wythnos, gyda'r cyflogwr yn hawlio grant sy'n gymesur â'r oriau sydd **heb eu gweithio**;
  - o bydd angen i'r oriau gwaith a'r oriau ar ffyrlo gael eu cytuno mewn ysgrifen;
  - o gall cyflogeion fynd i fwy nag un trefniant ffyrlo hyblyg.
- O fis Gorffennaf ymlaen, tra bydd y cyfanswm a dderbynnir gan gyflogeion cymwys yn parhau ar 80% o'u cyflogau, gyda chap ar £2,500, bydd y ffordd y mae'r taliad yn cael ei gyfansoddi'n newid:
  - o o fis Awst ymlaen, bydd disgwyl i gyflogwyr dalu cyfraniadau yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn perthnasol y cyflogwr;
  - o o fis Medi ymlaen, bydd disgwyl i gyflogwyr dalu 10% (hyd at £312.50) tuag at y tâl ffyrlo i'w cyflogeion, a bydd Llywodraeth y DU yn talu 70% (hyd at £2,187.50);
  - o ym mis Hydref, bydd disgwyl i gyflogwyr dalu 20% (hyd at £625) tuag at gyflogau eu cyflogeion, a bydd Llywodraeth y DU yn talu 60% (hyd at £1,875).
- O 1 Gorffennaf ymlaen, ni fydd bellach isafswm cyfnod o dair wythnos ar gyfer rhoi cyflogeion, gan gynnwys athrawon cyflenwi, ar ffyrlo.
- Mae'n rhaid i bob cyfnod y mae ceisiadau a wneir gan gyflogeion yn cyfeirio atynt ar ôl 1 Gorffennaf ddechrau a gorffen o fewn yr un mis calendr ac mae'n rhaid iddynt fod am saith diwrnod o leiaf, heblaw bod y cyflogai'n hawlio am yr ychydig ddiwrnodau cyntaf neu'r ychydig ddiwrnodau olaf yn y mis.

Os bydd cyflogwyr yn dewis defnyddio ffyrlo hyblyg, bydd angen iddynt gyfrifo 80% o gyflog arferol y cyflogai er mwyn penderfynu faint i'w hawlio fel grant a sut i dalu fel y cyflogwr o dan y Cynllun diwygiedig.

O 1 Gorffennaf ymlaen, bydd cyflogwyr yn gwneud cais am faint pro rata o 80% a gyfrifir ar sail cyfran yr oriau heb eu gweithio allan o oriau gwaith arferol y cyflogai ('oriau arferol'[1]).

[1] Mae 'oriau arferol' yn cynnwys unrhyw oriau o absenoldeb gyda thâl ar y gyfradd lawn yn ôl y contract ac unrhyw oriau goramser a weithiwyd, ond dim ond os nad oedd y tâl yn ddewisol.

- O ran y cyflogeion sydd ar gontract llawn amser neu ran amser, mae 'oriau arferol' yn seiliedig ar nifer yr oriau a weithiwyd yn y cyfnod tâl perthnasol cyn 19 Mawrth 2020.
- O ran y cyflogeion y mae eu tâl yn amrywio, megis athrawon cyflenwi, 'oriau arferol' yw'r uchaf o'r rhain:
  - nifer cyfartalog yr oriau a weithiwyd yn ystod blwyddyn dreth 2019-20; neu
  - y cyfnod calendr cyfatebol yn ystod blwyddyn dreth 2019-20.

Yn debyg i'r Cynllun Cadw Swyddi blaenorol, rhaid i'r cyflogwr a'r cyflogai gytuno ar y trefniant ffyrlo, gan gynnwys cael cytundeb newydd os ydynt yn symud i ffyrlo hyblyg. Rhaid i'r cyflogwr roi gwybod i'r cyflogai mewn ysgrifen, a dylai'r cyflogwr gadw cofnod o hyn am gyfnod o bum mlynedd. Os bydd y cyflogwr yn dod i gytundeb gydag undeb llafur, megis NASUWT, bydd hynny hefyd yn dderbyniol i bwrpas y Cynllun.

Yn awr, mae disgwyl i gyflogwyr gadw cofnodion am gyfnod o chwe blynedd sy'n nodi nifer yr oriau a weithiwyd gan y cyflogeion a nifer yr oriau y maent wedi'u treulio ar ffyrlo, ynghyd â manylion y maint a hawliwyd a'r cyfrifiadau perthnasol.

Er gwaethaf y newidiadau hyn, mae'n bwysig nodi y gall cyflogwyr barhau i gadw eu cyflogeion i gyd ar 'ffyrlo llawn'. Yn yr achos hwn, ni all cyflogeion wneud unrhyw waith i'r cyflogwr hwn nac unrhyw sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r cyflogwr hwn.

O dan y Cynllun Cadw Swyddi, nid oes unrhyw beth i atal eich cyflogwr rhag ychwanegu at eich cyflog hyd at 100% o'ch tâl arferol.

Does dim gwaharddiad i atal cyflogeion rhag gweithio i gyflogwr arall tra maent ar ffyrlo neu ar 'ffyrlo hyblyg' gyda'u cyflogwr/cyflogwyr presennol.

Mae'r Cynllun Cadw Swyddi'n berthnasol i bob cyflogwr yn unigol, felly gallai cyflogeion dderbyn 100% o'u cyflogau gan un o'u cyflogwyr, a derbyn 80% o'u cyflogau ar yr un pryd gan y cyflogwr sydd wedi'u rhoi ar ffyrlo.

Dylai cyflogeion wirio eu contract yn ofalus i weld beth yw eu hamodau cyflogaeth, ac a oes unrhyw waharddiadau ynglŷn â phwy y gallent weithio iddynt, ond efallai y bydd y cyflogwr yn cytuno i hepgor unrhyw waharddiadau o'r fath.

Mewn perthynas ag athrawon cyflenwi sy'n gweithio drwy asiantaeth, pan fyddent wedi'u rhoi ar ffyrlo gan yr asiantaeth, ni allent wneud unrhyw waith i'r cyflogwr hwn neu'r asiantaeth hon, gan gynnwys derbyn neu barhau penodiadau eraill mewn ysgolion eraill sy'n gleientiaid i'r asiantaeth.

Fodd bynnag, mae nifer o athrawon cyflenwi wedi'u cofrestru gyda, ac yn gweithio i, nifer o wahanol asiantaethau cyflenwi.

Am fod pob un ohonynt yn asiantaeth/cyflogwr ar wahân sydd â chyfeirnod TWE ar wahân, does dim rheswm pam na all athrawon cyflenwi weithio i un cyflogwr/asiantaeth pan fyddent wedi'u rhoi ar ffyrlo neu ar ffyrlo hyblyg gan un arall.

Mae'r Cynllun Cadw Swyddi'n berthnasol i bob cyflogwr/asiantaeth yn unigol.

Mae'r Undeb yn ymwybodol y gallai'r Cynllun Cadw Swyddi estynedig, yn arbennig y cyfeiriad at gynyddu'r cyfraniadau gan gyflogwyr, gael effaith niweidiol ar nifer yr athrawon cyflenwi a fydd yn cael eu helpu drwy gael eu rhoi ar ffyrlo, ynghyd â'r effaith ariannol gysylltiedig oherwydd colli enillion.

Mae NASUWT wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg y DU i ofyn bod ystyriaeth yn cael ei roi i sicrhau bod athrawon cyflenwi'n parhau i dderbyn rhagor o gymorth ariannol dros y misoedd nesaf.

Mae NASUWT wedi cynhyrchu llythyr templed i aelodau ei anfon at eu haelod seneddol i dynnu sylw at y ffaith fod angen diwygio'r Cynllun Cadw Swyddi estynedig er mwyn diogelu athrawon cyflenwi'n well. Mae'r llythyr hwn ar gael ar: **www.nasuwt.org.uk/supplyteachersfurloughcampaign**.

I gael rhagor o gyngor ac arweiniad, gwelwch ein hatebion i gwestiynau cyffredin am faterion yn ymwneud â'r coronafeirws.